Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Meithrinfa Coleg Glannau Dyfrdwy

**Ffordd Celstryn**
**Cei Conna**
**Glannau Dyfrdwy**
**Sir y Fflint**
**CH5 4BR**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2011**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir Meithrinfa Coleg Glannau Dyfrdwy yn y Coleg yng Nghei Conna, Sir y Fflint. Mae`n darparu yn bennaf ar gyfer plant myfyrwyr y coleg, ond yn derbyn plant staff sy`n gweithio yn y coleg a phlant y gymdogaeth gyfagos os oes lle. Mae`r Feithrinfa wedi ei chofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ar gyfer i fyny at 106 o blant o 3 mis oed nes iddynt symud ymlaen i`r cam nesaf yn eu haddysg.

Mae`r Feithrinfa wedi`i chofrestru i dderbyn i fyny at 36 o blant 3 oed. Ar hyn o bryd, mae 43 ar y gofrestr gyda 26 yn mynychu ar yr un pryd ac ariennir 5 ohonynt. Mae`r plant yn symud i addysg gynradd fel arfer yn y tymor sy`n dilyn eu penblwydd yn bedair oed. Ceir ychydig o amrywiaeth yn dibynnu ar yr ysgol o`u dewis gan fod y myfyrwyr sy`n mynychu`r coleg yn dod o wahanol ardaloedd.

Mae cefndir economaidd-gymdeithasol y plant yn amrywiol iawn, gan gynnwys teuluoedd un rhiant a`r rhai sy`n byw mewn ardaloedd cymuned yn gyntaf. Daw ychydig o ardaloedd economaidd-gymdeithasol breintiedig. Daw pob un o gefndir lle siaredir Saesneg gydag ychydig iawn o ymwybyddiaeth o`r iaith Gymraeg.

Mae`r Feithrinfa ar agor o 8 y.b. hyd at 17.45 y.p. am 5 diwrnod yr wythnos ac am 52 wythnos o`r flwyddyn. Mae`r plant wedi`u dyrannu i 5 grŵp yn dibynnol ar oedran.

Mae`r ystafelloedd yn cael eu cynnal a`u cadw`n dda iawn gan ddarparu cyfleusterau arbennig o dda ar gyfer y plant 3 oed. Tu fewn, mae`r plant o fewn ystafell fawr, gynnes a chyfforddus sydd wedi`i gwahanu`n briodol i ardaloedd o weithgareddau yn ôl gofynion deilliannau`r Cyfnod Sylfaen ar gyfer dysgu plant. Daw rhieni/gofalwyr at yr ystafell hon drwy goridor sy`n darparu`r plant â chyfleusterau hongian cotiau, ac mae hysbysfyrddau yn rhoi gwybodaeth i rieni. Tu allan, mae`r plant yn defnyddio ardal chwarae gyda digon o adnoddau sy`n caniatáu gweithgareddau unigol a grŵp ac sy`n darparu`r plant â chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau corfforol.

Mae`r plant yn cael eu derbyn pan maen nhw tua 3 mis oed ar ôl ymgynghori ymlaen llaw gyda rheolwr y Feithrinfa ac ar ôl i rieni ymweld â`r Feithrinfa. Mae`r Feithrinfa yn medru darparu`n dda ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac yn ddelfrydol ar gyfer rhain sydd ag anableddau corfforol. Er bod staff yn wyliadwrus wrth arfarnu gallu a chynnydd plant, does dim plentyn ar hyn o bryd sydd wedi`i nodi ag anghenion tebyg.

Arolygwyd y Cylch ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Chwefror 2011. Nid oedd unrhyw argymhellion pwysig ac adroddwyd bod y Feithrinfa yn bodloni, ac yn aml yn cynnig mwy na`r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal llawn.

Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad gan Estyn.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Rhagorol |

**Perfformiad presennol**

- Mae`r holl blant yn cyflawni`n dda ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu ar draws holl feysydd y cwricwlwm.
- Mae`r holl blant yn dangos ymddygiad ac agweddau da iawn tuag at ddysgu.
- Mae`r plant yn llawn hunan-hyder, yn ffurfio perthynas dda, yn ystyriol ac yn gwrtais.
- Mae gan y plant fedrau gwneud penderfyniadau sy`n dda ac yn gweithio`n annibynnol neu mewn grwpiau bach yn ôl yr angen.
- Mae gan yr holl blant agweddau cadarnhaol tuag at gadw`n iach a diogel.
- Mae`r cynllunio o`r cwricwlwm yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn llwyddo i ddiddori`r holl blant.
- Mae`r addysgu yn arloesol gyda chyd-bwysedd da iawn rhwng gweithgareddau a ddewisir gan y plentyn a gweithgareddau a arweinir gan oedolion.
- Mae`r gofal, cefnogaeth a`r arweiniad yn cael eu cyfeirio`n dda ac yn cael effaith dda ar y plant.
- Mae`r arweinyddiaeth a`r rheolaeth, gan gynnwys hunanarfarnu, wedi cael effaith dda iawn ar safonau a darpariaeth.
- Mae`r bartneriaeth â`r Coleg a rhieni yn dda iawn ac yn gwneud cyfraniad arwyddocaol i gyflawniad y plant.

**Rhagolygon gwella**

Rhagorol

- Mae ansawdd rhagorol yr arweinyddiaeth wedi darparu nodau ac amcanion clir ac yn treiddio trwy bob agwedd o`r Feithrinfa.
- Mae safon uchel iawn yr arweinyddiaeth wedi hyrwyddo ethos bositif a disgwyliadau uchel am ddysgu yn llwyddiannus – rhennir hyn gan yr holl staff.
- Mae`r hunanarfarnu hynod effeithiol wedi`i sefydlu`n dda a defnyddir gwybodaeth i flaenoriaethu meysydd ar gyfer eu datblygu.

- Mae gwerthuso staff (gan gynnwys rheoli perfformiad) yn hynod effeithiol ac yn cael ei wneud yn flynyddol gan nodi gofynion hyfforddi`r staff. Mae effaith hyfforddiant tebyg yn cael ei harfarnu ac wedi bod yn hynod effeithiol yn nhermau sut mae`r plant yn elwa ohoni.

- Mae synnwyr o bwrpas rhagorol yn amlwg yng ngweithgareddau dyddiol y Feithrinfa sy`n darparu`r plant â gweithgareddau heriol ochr yn ochr â chefnogi`u datblygiad.

Da

- Mae gan y Feithrinfa hanes da o weithredu newidiadau ac wedi elwa o`r berthynas waith agos effeithiol sydd ganddi â`r Coleg.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i’r Feithrinfa:

A1 wella`r ddarpariaeth bresennol ar gyfer datblygu gallu`r plant yn yr iaith Gymraeg.

A2 mireinio`r gweithdrefnau asesu ymhellach er mwyn nodi`r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant a defnyddio`r wybodaeth hon wrth gynllunio`r cwricwlwm.

A3 datblygu gwell fynediad i`r ardaloedd chwarae tu allan. ( Cynabyddir hyn yn y cynllun datblygu).

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu sy`n dangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae safonau cyflawniad a chynnydd yr holl blant yn dda a weithiau`n dda iawn. Mae`r plant yn mwynhau dysgu ac yn dyfalbarhau ar eu tasgau am gyfnodau sylweddol o amser. Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn medru gweithio`n annibynnol ond yn gweithio fel arfer mewn grwpiau bach, gan rannu deunyddiau ac adnoddau yn hapus. Mae gan bron pob un o`r plant y gallu i wneud dewisiadau o`r ystod eang o weithgareddau a ddarperir iddynt.

Mae gan yr holl blant fedrau gwrando da, yn unol â`u hoedran ac yn mwynhau gwrando ar storïau gan oedolion. Mae`r plant fwy galluog yn gofyn cwestiynau ac yn gallu siarad am y cymeriadau yn y storïau maent yn gyfarwydd â nhw. Mae gan yr holl blant iaith sylfaenol dda sy`n golygu bod eraill yn eu deall ac mae`r mwyafrif ohonynt yn datblygu geirfa sy`n galluogi iddynt siarad am eu hunain, eu teimladau a`u cartrefi. Mae`r holl blant yn gwrando ar y staff ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn fodlon ac mae llawer yn edrych am gyfleoedd i helpu, fel wrth dacluso yn y dosbarth.

Mae`r holl blant yn mwynhau edrych ar lyfrau ac mae`r mwyafrif yn gwneud hyn heb anogaeth. Mae`r plant yma`n dal llyfrau yn briodol ac mewn rhai achosion yn ail-ddweud stori maent wedi`i chlywed. Mae`r holl blant, rhai gydag anogaeth, yn adnabod eu henw, fel wrth hongian cotiau neu fagiau.

Mae`r holl blant rywbryd yn ystod y dydd yn dangos eu gallu i greu marciau sylfaenol. Mae llawer yn dechrau creu siapiau adnabyddus ac yn gwybod rhai o swyddogaethau ysgrifennu, fel gwneud rhestr siopa.

Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn defnyddio iaith fathemategol sylfaenol ac yn adnabod patrymau, dilyniannau a gwahanol siapiau. Mae llawer o`r plant yn adnabod rhifau sylfaenol a`u cyfrif, rhai i 9 ac ymhellach.

Mae`r holl blant yn eu tro yn dangos medrau cyfrifiadurol sylfaenol gan ddefnyddio`r lygoden gyfrifiadurol. Mae llawer o blant yn adnabod rhai o iconau`r cyfrifiadur, symud cymeriadau ar y sgrin a chynhyrchu lluniau syml. Hefyd, maent yn defnyddio camera digidol yn annibynnol.

Mae gan yr holl blant fedrau creadigol sydd wedi`u datblygu`n dda, fel wrth beintio. Maent yn mwynhau chwarae rôl ac yn ymateb yn dda i gerddoriaeth a dawns.

Mae medrau corfforol yr holl blant yn dda gyda rhai enghreifftiau da iawn fel y gwelwyd yn ystod gweithgareddau Jymtots. Yn yr achosion hyn, roedd y plant yn ymwybodol o wahanol ffyrdd o symud, roedd llawer yn dangos medrau cydbwyso da iawn ac mae ganddynt cydsymud llaw-llygad da.

Mae gan yr holl blant eirfa sylfaenol yn yr iaith Gymraeg, fel i ddisgrifio`i hunain, lliwiau a rhifau. Mae`n amlwg ei bod yn deall mwy o eiriau nag ydynt yn eu siarad, er enghraifft wrth iddynt ddilyn cyfarwyddiadau sylfaenol. Maen nhw`n ail-ddweud geiriau ac ymadroddion cyfarwydd ac yn ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymreig. Fodd bynnag, mae eu gallu i ddilyn storïau yn y Gymraeg ac i edrych ar lyfrau Cymraeg yn fwy cyfyngedig.

**Lles: Da**

Mae gan yr holl blant ddealltwriaeth briodol (yn unol â`u hoedran) o sut fedrant gadw`n iach. Mae llawer yn golchi eu dwylo heb anogaeth ar ôl iddynt beintio neu chwarae mewn tywod a dŵr a chyn bwyd. Mae gan lawer o blant ddealltwriaeth sylfaenol o fwyta`n iach fel pwysigrwydd ffrwythau yn eu deiet. Mae gan y plant yma ganfyddaid sy`n datblygu o bwysigrwydd gweithgareddau corfforol.

Mae`r amgychedd tu allan a`r neuadd chwaraeon maent yn eu defnyddio ar gyfer Jymtots yn darparu`r plant ag amgylchedd diogel lle maent yn medru cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol egnïol. Mae`r berthynas yn dda iawn ac mae`r plant yn rhydd oddi wrth gam-drin corfforol a geiriol.

Nodwedd da a nodedig o`r Feithrinfa yw mwynhad y plant yn eu dysgu. Mae`r ymddygiad tu hwnt i ddisgwyliadau ac mae gan yr holl blant agweddau da iawn at ddysgu gan gymryd rhan yn fodlon. Mae agweddau cadarnhaol y plant at eu dysgu yn amlwg wrth eu dyfalbarhad a`r modd maent yn canolbwyntio ar eu tasgau. Dengys eu sgwrsio eu bod yn uniaethu`n dda iawn a`i gilydd, gan gyd-weithredu a gweithio gyda`i gilydd yn hapus.

Mae`r rhan fwyaf o blant yn fedrus wrth wneud penderfyniadau ond yn barod i dderbyn syniadau gan eraill.  Maent yn mwynhau cyfrannu o fewn y gymuned fel wrth ymweld â`r llyfrgell i ddewis llyfrau neu ymweliadau gan ymwelwyr o`r gymuned.

| **Cwestiwn Allweddol 2:    Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae`r staff yn cydweithio i gynllunio.  Nodwedd da a nodedig o`r cynllunio yw ei fod yn seiliedig ar ddiddordebau`r plant.  Mae`r plant yn cymryd rhan weithredol drwy benderfynu beth maent yn astudio ac mae hyn yn ennyn diddordeb y plant yn llwyddiannus.  Fel canlyniad mae`r cynllunio yn hyblyg ac yn ymateb yn dda iawn i anghenion a disgwyliadau`r plant.  Mae`r cynllunio yn cymryd ystyriaeth dda iawn o ddeilliannau`r Cyfnod Sylfaen, mae`n arloesol gan herio a chymell y plant yn briodol.  Mae`r holl staff yn deall athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn llawn ac yn cynhyrchu cwricwlwm sy`n adeiladu`n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau`r plant unigol.

Mae`r gweithgareddau dysgu wedi`u cynllunio`n dda i ddatblygu`r plant fel dysgwyr annibynnol drwy roi cyfleoedd iddynt ddewis eu tasgau ac fel canlyniad i ddatblygu eu hunan hyder.  Mae`r hyder hyn a`r datblygiad o hunan barch yn sylfaen dda iddynt ffurfio perthynas â phobl eraill a goddefgarwch ohonynt pa beth bynnag yw eu cefndir.  Mae profiadau dysgu`r plant yn cynnwys digon o gyfleoedd iddynt ddatblygu eu medrau corfforol a chreadigol a dealltwriaeth o bethau byw.

Nodwedd da a nodedig o`r cynllunio yw`r ddarpariaeth a wneir ar gyfer datblygu medrau`r plant yn gydlynol ar draws yr holl feysydd dysgu.  Mae`r staff yn fedrus wrth elwa ar gyfleoedd i ddatblygu eu medrau yn ystod gweithgareddau sy`n canolbwyntio ar y plentyn a gwaith a arweinir yn fwy gan oedolyn.

Mae`r ddarpariaeth ar gyfer datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru yn dda, gan gynnwys dathlu gwyliau fel Dydd Gŵyl Dewi a Santes Dwynwen.  Datblygir yr iaith Gymraeg drwy ddefnyddio`r iaith yn achlysurol ond drwyddi draw nid yw`r cynllunio`n ddigonol er mwyn datblygu`r iaith yn systematig ac er bod y plant yn defnyddio`r iaith nid oes digon o ddefnydd ohoni yn y gweithgareddau ddydd i ddydd.

Mae`r cynllunio yn cynnwys cyfleoedd i`r plant ddysgu am ail-gylchu deunyddiau, fel wrth dyfu hadau a gofalu amdanynt.  Mae gan y plant cyfleoedd priodol i gwrdd â phobl sy`n gofalu amdanynt yn y gymdeithas ac i ddechrau deall y rolau sydd gan wahanol bobl o fewn cymdeithas.

**Addysgu:  Da**

Mae gan y staff profiadol, sydd â chymwysterau da, wybodaeth dda a gweithredol o ddatblygiad plant ac yn deall gofynion amcanion y Cyfnod Sylfaen ar gyfer dysgu plant.  Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o`r plant sy`n cael eu cyflawni`n ymarferol.

Mae`r trefniant o gael "gweithiwr allweddol" yn gweithio`n dda yn ymarferol gan fod gan staff unigol wybodaeth dda iawn o grŵp bach o blant. Mae hyn yn eu galluogi i gyfateb tasgau ag oedran a gallu`r plant ac i fodloni anghenion unigol mewn ffordd hyblyg.

Mae gwaith dyddiol y Feithrinfa yn galluogi`r plant i ddewis gweithgareddau a thrwyddi draw ceir cyd-bwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u harwain gan oedolyn. Mae`r staff yn gwybod pryd i ymyrryd er mwyn sicrhau bod y plentyn yn cymryd rhan yn weithredol a defnyddir cwestiynu yn dda i ddatblygu medrau meddwl y plant ac i`w herio.

Drwyddi draw, mae`r staff yn gweithio`n dda gyda`i gilydd ac yn cael eu briffio`n dda am eu rolau.

Mae`r Feithrinfa yn asesu`r plant yn rheolaidd ac mae`r arsylwadau yn cael eu cofnodi gyda`r dyddiad arnynt. Mae`r "gweithwyr allweddol" yn adnabod eu plant yn dda ac yn defnyddio`r wybodaeth hon i gynllunio gweithgareddau. Fodd bynnag, mae`r sylwadau yn tueddu i fod yn ddisgrifiadol ac nid ydynt bob tro`n canolbwyntio ar y camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant. Fel canlyniad, nid yw canlyniadau`r asesu bob tro yn cael eu defnyddio`n ddigonol wrth gynllunio`r cwricwlwm.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae`r ddarpariaeth ar gyfer datblygu iechyd a lles plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol, yn dda ac yn aml yn dda iawn.

Mae`r gweithgareddau ddydd-i-ddydd yn hyrwyddo iechyd a lles y plant yn effeithiol. Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn dod yn fwyfwy ymwybodol o bwysigrwydd bwyta`n iach a gwerth ymarfer corff mewn ffordd o fyw sy`n iach. Mae`r plant yn mwynhau byrbrydau a chinio, sydd yn ogystal â darparu bwydydd iach, yn achlysuron cymdeithasol pwysig lle mae`r plant yn helpu ei gilydd ac yn sgwrsio dros fwyd. Ceir digon o gyfleoedd i`r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol egnïol yn yr ardal chwarae lle mae digon o adnoddau. Nodwedd da iawn yw`r cyfloeodd sydd ar gael i`r plant ddefnyddio neuadd chwaraeon y Coleg. Mae hyn yn eu darparu ag amrywiaeth o weithgareddau sydd wedi`u cynllunio`n dda i wella eu perfformiad cardiofascwlaidd yn ogystal â datblygu eu cydsymud llaw-llygad.

Mae ymweliadau â`r ardal leol yn helpu i ddatblygu chwilfrydedd y plant am y byd o`u cwmpas ac mae ymwelwyr i`r Feithrinfa yn ymestyn gwybodaeth y plant am bobl yn y gymuned.

Mae gwaith dyddiol y Feithrinfa, yn enwedig y berthynas dda iawn rhwng oedolion a phlant, yn gymorth i feithrin gwerthoedd o onestrwydd, tegwch a pharch at ei gilydd.

Mae datblygiad cymdeithasol yr holl blant yn dda iawn. Maent yn rhyngweithio yn dda ac yn dod yn sensitif o anghenion ei gilydd gan ofalu am ei gilydd.

Mae gan yr holl blant ddealltwriaeth glir o`r hyn sy`n gywir a`r hyn sy`n anghywir ac mae bron pob plentyn yn ymddwyn yn unol â hynny. Mae llawer o blant yn dangos blaengaredd gydag ychydig iawn o anogaeth wrth oedolion. Drywddi draw, mae ymddygiad yn dda iawn ac mae`r plant yn awyddus i gymryd rhan yn gweithgareddau a ddarperir ar eu cyfer.

Mae datblygiad diwylliannol y plant yn dda ac maen nhw`n gyfarwydd â rhai o draddodiadau diwylliannol o Gymru.

Mae gan y Feithrinfa gysylltiadau effeithiol gyda gwasanaethau cefnogi a phroffesiynol lleol sydd wedi cael eu defnyddio yn y gorffennol. Mae`r plant sy`n cael eu nodi â ADY yn cael mynediad llawn i`r holl feysydd dysgu ac yn y gorffennol maent wedi cael mynediad i asiantaethau allanol yn ôl yr angen. Mae`r rhieni wedi cael gwybodaeth yn rheolaidd ac yn cael eu cynnwys yn addysg eu plentyn. Drwyddi draw, mae`r Feithrinfa wedi darparu cefnogaeth o ansawdd i blant ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol.

Mae polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i ddiogelu plant. Aelod o`r staff hŷn yw`r swyddog diogelu plant ac mae`r holl staff wedi derbyn hyfforddiant diweddar a pherthnasol. Mae`r gweithdrefnau yn adlewyrchu "Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008".

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae`r Feithrinfa yn dangos ethos cadarnhaol a chynhwysol sy`n cynnig hawl gyfartal i`r holl blant pa beth bynnag bo`u cefndir. Mae`r staff yn adnabod eu plant yn dda ac yn sensitif i`w hanghenion gan ddangos anwyldeb, ystyriaeth a dealltwriaeth tuag at y plant.

Mae`r Feithrinfa yn amgylchedd cartrefol a chefnogol lle mae`r plant yn dangos agwedd oddefgar sy`n rhydd oddi wrth unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Mae`r Feithrinfa yn meddu ar bolisïau a gweithdrefnau i ddelio ag achosion o wahaniaethu ond nid oes achos wedi bod i`w defnyddio.

Mae`r Feithrinfa yn ddelfrydol ar gyfer derbyn plant sydd ag unrhyw ffurff o anabledd, yn enwedig anabledd corfforol, ac mae polisïau ar waith i hyrwyddo hawliau cyfartal. Mae gweithdrefnau cwyno yn cael eu harddangos ond nid ydynt erioed wedi`u defnyddio.

Mae gan y Feithrinfa ddigon o staff sydd â chymwysterau a phrofiad da. Mae`r adnoddau`n gweddu`n dda i alwadau cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac yn hygyrch i`r plant. Mae cyflenwad hael o adnoddau a deunyddiau sy`n canolbwyntio`n dda ar anghenion penodol y plant.

Drwyddi draw, mae`r ystafelloedd yn darparu amgylchedd da iawn i addysg y plant ac fe`u defnyddir yn effeithiol. Defnyddir yr amgylchedd lleol yn dda i gefnogi`r dysgu.

| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae gan yr holl staff ddealltwriaeth dda iawn o`u rolau a`u cyfrifoldebau fel sy`n amlwg yn eu disgrifiadau swydd. Mae`r staff sy`n gweithio yn y Feithrinfa yn effeithiol iawn yn y ffordd maent yn bodloni gofynion y plant a gweld yr hyn sydd eisiau ei wneud. Fel canlyniad, mae`r gweithgareddau o ddydd i ddydd a`r profiadau caiff y plant yn hynod ddychmygus ac o safon uchel iawn.

Drwyddi draw, mae arweinyddiaeth arloesol y Feithrinfa yn darparu arweinyddiaeth glir a synnwyr o bwrpas sy`n hyrwyddo a chynnal gwelliant. Mae`r arweinyddes, sy`n gweithio ochr yn ochr â staff hŷn yn y Coleg, yn cael ei hystyried fel aelod hynod o effeithiol, arloesol a medrus o`r tîm rheolwyr hŷn, gan gyfrannu`n effeithiol at y cynllunio strategol.

Mae`r staff yn rhannu gwerthoedd, nodau ac amcanion, mae disgwyliadau uchel ac mae`r rhain wedi`u gwireddu`n ymarferol. Mae`r staff yn hynod o broffesiynol ac mae arweinydd grŵp y plant 3 oed ( grŵp y ceiliog rhedyn) yn deall ei rôl yn llawn o fewn y sefydliad ac yn cymryd rôl arwyddocaol iawn wrth reoli ei chyfrifoldebau sy`n seiliedig ar ei gwybodaeth a`i dealltwriaeth drwyadl o athroniaeth amcanion y Cyfnod Sylfaen ar gyfer dysgu plant.

Mae yna weithdrefnau effeithiol ac arloesol ar waith i gyflwyno, arfarnu a gwella ymarferwyr. Caiff y staff eu harfarnu`n flynyddol ac eir i`r afael â`u hanghenion proffesiynol a disgwyliadau`r Feithrinfa. Canlyniad hyn yw bod yr holl staff yn chwarae rôl hynod effeithiol a chreadigol yn y Feithrinfa a darparu rhai profiadau gwych i`r plant. Drwyddi draw, mae effaith rhagorol yr arweinyddiaeth wedi darparu`r Feithrinfa â chyfeiriad strategol clir ac arloesol a staff sydd wedi ymrwymo`n llwyr.

Mae`r cysylltiadau â rhieni yn dda iawn ac mae`r Feithrinfa yn effeithiol iawn drwy fodloni anghenion gwahanol rhieni a thrwy ymateb i`w sefyllfaoedd personol.

Mae arweinyddes y Feithrinfa yn gweithio`n effeithiol fel rhan o dîm rheoli hŷn y Coleg. Mae hi`n ymwybodol iawn o berfformiad y lleoliad gan ddefnyddio`r wybodaeth hon i wneud pendefyniadau effeithiol. Mae`r holl ddyletswyddau cyfreithiol yn cael eu cyflawni.

Mae`r Feithrinfa yn hynod effeithiol wrth fodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ac wedi cymryd ystyriaeth dda o fentrau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a`r Awdurdod Lleol.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae`r gweithdrefnau hunanarfarnol yn rhagorol. Mae`r Feithrinfa wedi nodi ei chryfderau a`r meysydd i`w gwella yn gyson yn ei gweithdrefnau hunanarfarnu. Mae

wedi bod yn hynod effeithiol wrth adeiladu ar ei chryfderau ac wedi mynd i`r afael â meysydd i`w gwella yn gyson ac yn arloesol. Canlyniad hyn yw enillion positif i`r plant a chwricwlwm arloesol a dychmygus iawn sy`n cyfateb yn dda â`u hanghenion, diddordebau a gallu. Nodwedd ragorol o`r hunanarfarnu yw ei fod yn cael ei flaenoriaethu a`i gynllunio o fewn y Cynllun Busnes Gweithredol cyffredinol ac yn cynnwys mireinio parhaol i`r Feithrinfa ( fel addurno) yn ogystal â datblygiadau arloesol (fel cael bws mini) i ymestyn cyfleoedd dysgu`r plant.

Mae`r hunanarfarnu`n cynnwys yr holl staff gan gymryd i ystyriaeth eu barnau, profiadau ac arbenigedd. Mae`r holl staff yn cael eu cynnwys yn llawn mewn datblygiad proffesiynol ac yn cyfrannu`n weithredol i brofiadau dysgu proffesiynol lleoliad-cyfan gan gynnwys hyfforddiant mewnol.

Mae effaith yr hyfforddiant yn cael ei mesur fel mater o drefn yn nhernau`r effaith ar gynnydd a lles y plant. Mae hyn wedi profi`n hynod effeithiol.

Caiff staff gyfleoedd da i ddatblygu eu proffesiynoldeb drwy ymwleliadau a chyrsiau sydd ar gael iddynt tu hwnt i`r lleoliad.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae rhieni, yn eu hymatebion i`r holiadur, yn datgan eu boddhad llwyr â`r Feithrinfa ac yn hynod werthfawrogol o safonau`r gofal ac ansawdd y ddarpariaeth addysgol a ddarperir gan y Feithrinfa. Maent yn gwerthfawrogi`r polisi “drws agored”, yr amser sydd gyda nhw i ymgartrefu eu plant yn y Feithrinfa a`r cyfle i gwrdd â`r staff.

Mae`r rhieni yn gwerthfawrogi`r system “gweithiwr allweddol”. Golyga hyn bod rhieni yn medru siarad â`r staff sydd â chyfrifoldebau penodol am eu plentyn. Yn ystod yr arolygiad, arsylwyd bod y gweithiwr allweddol yn cwrdd â`r plant unigol yn y bore sydd yn ddull effeithiol o setlo`r plant a`u cynnwys yn weithredol yn y gweithgareddau o osodwyd iddynt. Nid oedd un plentyn i weld yn gecrys ond roedd cymorth ar gael pe bai unrhyw blentyn yn anfodlon i ymuno â`r grŵp. Hefyd, roedd trefniadau tebyg yn darparu plant unigol â chefnogaeth ac anwyldeb ychwanegol.

Caiff rhieni eu hysbysu`n llawn am waith y Feithrinfa a chyflawniad a chynnydd eu plant.

Mae manylion y gweithgareddau dyddiol, manylion y cwricwlwm a gwybodaeth ddefnyddiol arall yn cael eu harddangos ar yr hysbysfwrdd. Mae cyfleoedd ar ddiwedd y dydd i rieni/gofalwyr gael trafodaeth anffurfiol gyda`r “gweithwyr allweddol” ac i weld enghreifftiau o waith eu plant. Caiff adroddiadau ffurfiol eu cynhyrchu`n flynyddol. Yn ôl yr angen, caiff rhieni eu cynnwys yn llawn mewn penderfyniadau am eu plant.

Roedd trafodaeth gyda staff perthnasol o`r Awdurdod Lleol yn nodi bod partneriaeth hynod effeithiol a defnyddiol ar waith. Mae`r Feithrinfa wedi elwa o gyngor gan yr athrawes ymgynghorol a adroddodd ar fodlonrwydd y Feithrinfa i dderbyn cyngor a gweithredu newidiadau.

Cydnabyddir y Feithrinfa gan staff yr Awdurdod Lleol fel enghraifft dda iawn o ymarfer Meithrinfa cyfredol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae`r staff a`r adnoddau yn cael eu defnyddio`n dda. Mae`r Feithrinfa wedi`i staffio`n hael, ac maent yn brofiadol gyda chymwysterau da ac yn dangos ymrwymiad da iawn i ddarparu`r profiadau gorau posibl i`r plant.

Mae digon o adnoddau sydd wedi`u dewis yn dda i fodloni gofynion y plant a chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae`r cyfleusterau a ddefnyddir gan y plant yn ragorol, gan gynnwys yr ardal chwarae gyfagos tu allan ac yn enwedig y neuadd chwaraeon a`r cyfleusterau mae`r plant yn eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau Jymtots. Mae effaith gweithgareddau tebyg ar ddatblygiad corfforol a medrau cymdeithasol y plant yn dda iawn.

Yn ei hunanarfarniad, mae`r Feithrinfa wedi nodi mwy o ddefnydd o`r awyr agored lle`n bosibl ar gyfer ymestyn medrau`r plant ymhelllach. Mae`r arolygiad cyfredol, tra`n nodi agweddau da a da iawn o`r adnoddau sydd ar gael, yn cefnogi mentrau tebyg yn llawn.

Drwyddi draw, defnyddir adnoddau yn dda iawn ac mae`r Feithrinfa yn rhoi gwerth da iawn am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cafodd pedwar holiadur eu dychwelyd. Roedd pob un yn datgan boddhad llwyr y rhieni â`r Feithrinfa.  Roedd pob un yn cytuno`n gryf gyda`r datganiadau yn yr holiadur gan ddatgan:

i. eu bod yn fodlon â`r lleoliad.
ii. bod eu plentyn yn hoffi`r lleoliad.
iii. bod eu plentyn wedi ymgartrefu`n dda wrth ddechrau yn y lleoliad.
iv. bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da.
v. bod yr addysgu`n dda.
vi. bod eu plentyn yn cael ei drin/ei thrin yn deg a chyda pharch.
vii. bod eu plentyn yn cael ei (h)annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
viii. bod eu plentyn yn ddiogel yn y lleoliad.
ix. eu bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plant.
x. eu bod yn gyfforddus ynglŷn â mynd at y lleoliad.
xi. eu bod yn deall gweithdrefnau`r lleoliad ar gyfer delio â chwynion.
xii. bod eu plentyn yn cael ei baratoi/ei pharatoi`n dda ar gyfer symud ymlaen i`r ysgol.
xiii. bod y lleoliad yn cael ei redeg yn dda.

Nid oedd unrhyw sylwadau anffafriol.

### Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Mae`r holl blant yn hapus yn y Feithrinfa. Mae eu hymarweddiad yn dangos yn amlwg eu bod yn mwynhau eu hamser yn y Feithrinfa.  Maent yn cyrraedd yn y bore yn llawn brwdfrydedd i gymryd rhan yn y gweithgareddau ac maent yn dod yn rhan o`r grŵp yn syth.  Mae`r holl blant yn dangos graddfa uchel o hunan – hyder ac yn fodlon siarad ag ymwelydd gan wneud hynny am gyfnod hir.  Mae`r plant yn siarad am yr amrywiaeth o bethau diddorol maent yn eu gwneud yn y Feithrinfa, bod ganddynt lawer o ffrindiau ac am y cymorth maent yn ei gael gan y staff.  Mae llawer o`r plant yn hapus i ddarllen i ymwelydd a siarad am eu hoff storïau.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)